

# Cael ein gyrru – neu ein denu?

*“Meddai Iesu wrthynt, ‘Onid dyma achos eich cyfeiliorni, eich bod heb ddeall na’r Ysgrhythur na gallu Duw?’ (adn. 24)*

## Beth am ddarllen Marc 12:18–27 ac yna myfyrio

Ddoe fe ddaru ni sôn am ddau beth fydd yn digwydd os methwn ni â dal ein gafael yn yr ymdeimlad o stori: Fe fyddwn ni’n prysuro’n hunain yn ein byd bach ein hunain, ac fe amddifadwn ein hunain o’r ymwybyddiaeth a’r wefr o gael bod yn rhan o weithgaredd Duw. Peth arall pellach fydd yn digwydd yw hyn: byddwn yn trin y Beibl fel system i’w ddehongli’n fanwl gan fethu darganfod ei wir rym. Mae Eugene Peterson yn agos iawn i’w le wrth ddweud: “Pan fethwn ni â datblygu ymwybyddiaeth o stori, yna fe ddechreuwn ddefnyddio’r Beibl drwy gymryd meddiant o ryw adnod neu ddysegeidiaeth neu foes gyda’r bwriad o roi trefn ar ryw damaid bach o’n hunain.”

Ond daliwch am funud – onid dyna ddylem ni ei wneud efo’r Beibl – ei gysylltu â’n bywyd beunyddiol? Yn sicr fe ddylem ni ddefnyddio egwyddorion Beiblaidd, ond fe fethwn ystyr sylfaenol y Beibl os dyna’r oll a wnawn ni. Roedd y Sadwceaid ers talwm yn ddarllenwyr dyfal o’r Ysgrhythurau, ond roedden nhw’n methu â gweld eu prif bwrpas; roedden nhw’n rai da am godi testunau penodol ond, fel y gwelwn o’n darlleniad heddiw, fe fethon nhw â deall y gwir ystyr. Mae sawl Cristion yn byw bywyd rhagorol yn nhermau moesoldeb ac eto yn ddi-fflach a heb unrhyw angerdd. Maen nhw’n gwybod sut i gymhwyso testunau unigol ar gyfer materion bob dydd, ac eto heb allu gweld y stori fwy sydd y tu hwnt i’r testunau Ysgrythurol. Maent yn bobl sy’n cael eu gyrru yn hytrach na’u denu.

Fel y buom ni’n ei ddweud yn barod, nid system foesebol mo Cristnogaeth yn ei hanfod, ond stori yn hytrach. Stori yw hi yn bennaf am y Meistr – pwy ydy o, o ble y daeth o, beth wnaeth o, a beth mae o’n mynd i’w wneud. “Mae’r pethau y byddwn ni’n eu gwneud fel Cristnogion,” yn ôl William Kilpatrick, “yn bethau a wnawn yn bennaf nid am resymau moesol ond am ein bod ynghlwm mewn stori.”

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 11:42; Marc 10:17–22; Math.5:17–19

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut, yn ôl Iesu, y dylem fynd tu hwnt i’r testunau Beiblaidd?
2. Beth oedd agwedd Iesu tuag at lythyren y Gyfraith?

## Gweddi

O Dad, helpa fi i archwilio fy hun heddiw er mwyn cael gweld os mai awydd mewnol i gydymffurfio â set o reolau sy’n fy ngyrru ynteu ydw i’n cael fy nenu i fyw er dy fwyn am fy mod ynghlwm yn dy stori di. Yn enw Iesu. Amen.